OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1514

# Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 2

## DARPARWYR COFRESTREDIG, UNIGOLION CYFRIFOL A RHEOLWYR

### Ffitrwydd y darparydd cofrestredig

**5.**—(1) Rhaid i gorff beidio â rhedeg asiantaeth oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw corff yn ffit i redeg asiantaeth —

(a) oni bai ei fod wedi hysbysu'r awdurdod cofrestru o enw, cyfeiriad a safle unigolyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr unigolyn cyfrifol") yn y corff a hwnnw'n unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall i'r corff hwnnw ac sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith rheoli'r asiantaeth; a

(b) oni bai bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw —

(a) bod yr unigolyn yn addas o ran gonestrwydd a chymeriad da i redeg yr asiantaeth;

(b) ei fod yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i redeg yr asiantaeth; ac

(c) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglyn â'r person o ran pob un o'r materion a bennir yn Atodlen 2.

### Penodi rheolwr

**6.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig benodi unigolyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel 'y rheolwr cofrestredig') i reoli'r asiantaeth.

(2) Rhaid i'r darparydd cofrestredig hysbysu'r awdurdod cofrestru ar unwaith o'r canlynol —

(a) enw unrhyw berson a benodir yn unol â'r rheoliad hwn; a

(b) y dyddiad y daw'r penodiad yn effeithiol.

### Ffitrwydd y rheolwr

**7.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig beidio â chaniatáu i berson reoli'r asiantaeth onid yw'n ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli asiantaeth oni bai —

(a) ei fod yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;

(b) o ystyried maint yr asiantaeth a datganiad o ddiben yr asiantaeth —

(i) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i reoli'r asiantaeth; a

(ii) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i reoli'r asiantaeth; ac

(c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael ynglyn â'r person o ran pob un o'r materion a bennir yn Atodlen 2.

**Y person cofrestredig — gofynion cyffredinol**

**8.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, wedi iddynt ystyried —

(a) maint yr asiantaeth a datganiad o ddiben yr asiantaeth; a

(b) yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles y rhai sy'n cael gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr asiantaeth,

redeg neu reoli'r asiantaeth â gofal, cymhwysedd a sgil digonol.

(2) Rhaid i'r darparydd cofrestredig sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd o dro i dro â'r hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r sgiliau a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg yr asiantaeth.

(3) Rhaid i'r darparydd cofrestredig sicrhau bod y rheolwr cofrestredig yn ymgymryd o dro i dro â'r hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r asiantaeth.

**Hysbysu tramgwyddau**

**9.**—(1) Pan fo'r person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd troseddol, boed yng Nghymru neu'n rhywle arall, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cofrestru ar unwaith o'r canlynol —

(a) dyddiad a lle'r gollfarn;

(b) y tramgwydd y mae wedi'i gollfarnu ohoni;

(c) y gosb a osodwyd am y tramgwydd.